

RHEOLWR PARTNERIAETH ARTWORKS CYMRU

DISGRIFIAD SWYDD

Yn adrodd i: Cyfarwyddwr Actifyddion Artistig / Grŵp Arweinyddiaeth ArtWorks Cymru

Prif ddiben:

Cwblhau cyflawni rhaglen ArtWorks Cymru 2018 - 2021 gan gynnwys yr Astudiaeth Achos Egwyddorion Ansawdd, Llwybr Annog Artistiaid Cymru a sesiynau hyfforddi i'r Sector Cyfranogol yng Nghymru.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau allweddol:

Rheoli Rhaglen

- Rheoli cwblhau Astudiaethau Achos Egwyddorion Ansawdd ArtWorks Cymru, gan gynnwys galw cyfarfodydd, cyfweld y rhai sy'n cymryd rhan, casglu data, llunio'r astudiaethau achos terfynol a threfnu eu cyhoeddi ar y wefan a'u hargraffu.
- Rheoli cwblhau Llwybr Annog Artistiaid Cymru gan gynnwys cefnogi'r Artistiaid-Anogwyr presennol, gwerthuso'r rhaglen trwy gyfweld detholiad o'r rhai fu'n cael eu hannog a chyhoeddi arolwg partneriaid, a llunio adroddiad terfynol.
- Rheoli cwblhau'r rhaglen hyfforddi partneriaeth, gan gynnwys cynllunio a chyflawni digwyddiad terfynol yng ngwanwyn 2021.

Cyfathrebu

- Gweithio yn effeithiol i gyfathrebu gyda'r bartneriaeth a'r cyd-weithwyr trwy roi'r newyddion diweddaraf am y bartneriaeth
- Rhedeg sianeli cyfryngau cymdeithasol ArtWorks Cymru gan gynnwys Facebook a Twitter
- Cysylltu â rhwydweithiau eraill fel Rhwydwaith Iechyd a Lles Celfyddydau Cymru ac YANC a gwybodaeth ar draws swyddi
- Cyfathrebu gyda fforymau gan y Gynghrair ArtWorks a chymryd rhan ynddynt a rhannu unrhyw gynlluniau o Gymru

Gweinyddol

- Rhoi diweddariadau cyson i Fwrdd Ymddiriedolwyr Actifyddion Artistig yn ôl y gofyn
- Rhoi diweddariadau cyson i Grŵp Arweinyddiaeth ArtWorks Cymru
- Rhoi adroddiad i Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Paul Hamlyn trwy gydol y rhaglen ac ar ôl gorffen y rhaglen
- Cadw gyriant Google ArtWorks Cymru mewn trefn a chadw cofnodion o'r holl weithgarwch
- Cadw'r gyllideb yn gyfredol a chadw cofnodion o'r holl anfonebau a gwariant
- Cadw at yr holl bolisiau Actifyddion Artistig yn ôl y gofyn

MANYLEB PERSON

Meini prawf hanfodol

- Dealltwriaeth eang ac ymrwymiad i weithgareddau diwylliannol gwirfoddol ac amatur.
- Gwybodaeth am gelfyddydau / sector a seilwaith diwylliannol Cymru a phrofiad ohonynt.
- Cefndir mewn datblygu a gweinyddu rhwydweithiau o randdeiliaid, gorau oll os yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol, cyrff sector cyhoeddus a/neu ymarferwyr creadigol.
- Profiad o drefnu cyfarfodydd, seminarau a sesiynau hyfforddi.
- Sgiliau cyflwyno personol, ysgrifenedig a llafar ar lefel uchel.
- Llythrennedd cyfrifiadurol ar lefel uchel gyda meddalwedd prosesu geiriau, taenlenni a chyflwyno.
- Cyfarwydd â'r meini prawf cyffredin ar gyfer cynlluniau a ariennir yn gyhoeddus, a phrofiad o'u cyflawni, gan gynnwys monitro canlyniadau, rheolaeth ar gyllideb, gwerthuso ac ysgrifennu adroddiadau.
- Y gallu i deithio yn aml trwy Gymru, a mannau eraill yn achlysurol, gan gynnwys aros dros nos.
- Parodrwydd i weithio ar benwythnosau a min nosau yn ôl yr angen.

Meini prawf dymunol

- *Gan y bydd y swydd hon yn cynnwys cyfathrebu ag amrywiaeth o gymunedau ar draws Cymru, byddai'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn ddymunol iawn, er y bydd ymgeiswyr eithriadol nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd yn cael eu hystyried.*
- Profiad o ddal swydd gyfrifol mewn sefydliad gwirfoddol neu ddiwylliannol neu gorff ymbarél.
- Cefndir o ran rhoi cyngor, cyfarwyddyd, mentora a/neu annog, gan gynnwys datblygu sefydliad.
- Profiad o reoli staff cyflogedig neu wirfoddolwyr ac, yn benodol, o bell.
- Cyfranogiad parhaus mewn gweithgaredd diwylliannol creadigol.

- Aelodaeth o grŵp neu sefydliad gwirfoddol/amatur, ar lefel pwyllgor yn benodol.
- Dealltwriaeth o gyfryngau cymdeithasol a gofynion llwyfannau ar-lein.

Rydyn ni'n gwahodd ceisiadau drwy anfon datganiad o ddiddordeb a CV gyfredol i a2@artsactive.org.uk. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 30 Hydref.